# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 26 Hydref, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd N.C. Thomas (Cadeirydd); Cynghorydd S.D. Perkes (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G. Bruce, I. Buckley, C.A. Cave, C.E.A. Champion, M. Cowpe, P. Drake, A.M. Ernest, W. Gilligan, N.P. Hodges, Dr. I.J. Johnson, H.M. Payne, I.A.N. Perry, C. Stallard, E. Williams a M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd G.D.D. Carroll, V.P. Driscoll, C.P. Franks, W.A. Hennessy, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) a R. Sivagnanam (Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddiol).

| **Enw'r Siaradwr** | **Rhif Cais Cynllunio a Lleoliad** | **Rheswm dros Siarad** |
|---|---|---|
| J. Jones | 2021/01046/RG3 - 10 Duffryn Close, St Nicholas. | Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned |
| J. Jones | 2021/01047/RG3 - 12 Duffryn Close, St Nicholas | Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned |

479 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

480 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Medi, 2023 fel cofnod cywir.

481 DATGANIADAU BUDDIANT –

Derbyniwyd y datganiadau buddiannau canlynol:

| Cynghorydd | Eitem Agenda Rhif | Natur y Buddiant |
|---|---|---|
| M. Cowpe | 2020/01218/HYB - Cei Lecwydd, Heol Lecwydd, Lecwydd. | Natur y buddiant personol oedd bod y Cynghorydd Cowpe wedi ystyried y cais yn flaenorol yn ei rôl fel Cynghorydd Cymuned Dinas Powys yn ogystal ag yng Nghyngor Cymuned Llanfihangel-y-pwll a Chyngor Cymuned Lecwydd. Fodd bynnag, byddai'n edrych ar y cais a'r holl wybodaeth gyda llygaid newydd. Arhosodd y Cynghorydd Cowpe yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem. |
| S.D. Perkes | Eitem Agenda 10 – 2021/01046/RG3 – 10 Duffryn Close, Sain Nicolas. | Natur y buddiant sy'n rhagfarnu oedd bod y Cynghorydd Perkes wedi'i phenodi'n ddiweddar yn Aelod Cabinet Cyngor Bro Morgannwg dros Dai Sector Cyhoeddus ac Ymgysylltu â Thenantiaid a Chyngor Bro Morgannwg oedd yr Ymgeisydd ar gyfer y Cais. Tynnodd y Cynghorydd Perkes yn ôl o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem. |
| S.D. Perkes | 2021/01047/RG3 - 12 Duffryn Close, Sain Nicolas. | Natur y buddiant sy'n rhagfarnu oedd bod y Cynghorydd Perkes wedi'i phenodi'n ddiweddar yn Aelod Cabinet Cyngor Bro Morgannwg dros Dai Sector Cyhoeddus ac Ymgysylltu â Thenantiaid a Chyngor Bro Morgannwg oedd yr Ymgeisydd ar gyfer y Cais. Tynnodd y Cynghorydd Perkes yn ôl o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem. |

| | | |
|---|---|---|
| I.A.N. Perry | 2021/01046/RG3 - 10 Duffryn Close, Sain Nicolas. | Natur y buddiant personol oedd bod y Cynghorydd Perry wedi ystyried y cais yn flaenorol yn ei rôl fel Cynghorydd Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn. Fodd bynnag, byddai’n edrych ar y cais a'r holl wybodaeth gyda llygaid newydd yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio. Arhosodd y Cynghorydd Perry yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem. |
| I.A.N. Perry | 2021/01047/RG3 - 12 Duffryn Close, Sain Nicolas. | Natur y buddiant personol oedd bod y Cynghorydd Perry wedi ystyried y cais yn flaenorol yn ei rôl fel Cynghorydd Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn. Fodd bynnag, byddai’n edrych ar y cais a'r holl wybodaeth gyda llygaid newydd yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio. Arhosodd y Cynghorydd Perry yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem. |

482 ARCHWILIADAU SAFLE (CX) –

PENDERFYNWYD – Y DYLID nodi presenoldeb y Cynghorwyr canlynol yn ystod yr ymweliad safle a gynhaliwyd ar 7 Medi 2023, yn amodol ar ymddiheuriadau'r Cynghorydd H.M. Payne yn cael eu nodi hefyd:

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr G. Bruce, C.M. Cowpe, P. Drake, N.P. Hodges, S.D. Perkes ac M.R. Wilson.

| | |
|---|---|
| Tir yn Moat Farm, Llyswyrny | Y Cynghorydd N.C. Thomas (Cadeirydd); y Dr I.J. Johnson ac I.A.N. Perry. |

483 CEISIADAU RHEOLI ADEILADAU A MATERION RHEOLI ADEILADAU ERAILL A BENDERFYNWYD GAN BENNAETH ADFYWIO A CHYNLLUNIO DAN BWERAU DIRPRWYEDIG (PDC) –

PENDERFYNWYD –

(1) NODI’r ceisiadau rheoliadau adeiladau a basiwyd, fel y'u rhestrwyd yn Adran A yr adroddiad.

(2) Y DYLID nodi’r ceisiadau adeiladu a wrthodwyd, fel y’u rhestrir yn Adran B yr adroddiad.

(3) NODI’r broses o gyflwyno Hysbysiadau dan y Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2000, fel y'i nodir yn Adran C o'r adroddiad.

484 CEISIADAU CYNLLUNIO A BENDERFYNWYD GAN BENNAETH DATBLYGU CYNALIADWY DAN BWERAU DIRPRWYEDIG (PDC) –

PENDERFYNWYD – BOD y ceisiadau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ar dudalennau 13 trwy 38, o dan y pwerau wedi'u nodi uchod.

485 APELIADAU (PDC) –

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid nodi nad oedd unrhyw Apeliadau wedi'u derbyn ar adeg y cyfarfod.

(2) Y DYLID nodi'r Apeliadau Gorfodaeth, fel y manylwyd arnynt yn Adran B yr adroddiad.

(3) NODI'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio, fel y manylwyd arnynt yn Adran C yr adroddiad.

(4) Y dylid nodi nad oedd unrhyw Benderfyniadau Apeliadau Gorfodi wedi'u derbyn ar adeg cynnal y cyfarfod.

(5) BOD yr ystadegau sy'n ymwneud ag apeliadau am y cyfnod Ebrill 2023 – Mawrth 2024, fel y manylir yn Adran E yr adroddiad, yn cael eu nodi.

486 COED (PDC) –

(i) Rhestr Ddirprwyedig

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r ceisiadau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ar dudalennau 44 a 48, fel y penderfynir gan y Pennaeth Datblygu Cynaliadwy o dan bwerau dirprwyedig.

487 CAMAU GORFODI (PDC) -

(i) Tir ac Adeiladau yn Holiday Inn Express, Port Road, Y Rhws -

Bu’n angenrheidiol i’r Pennaeth Datblygu Cynaliadwy a’r Rheolwr Gweithredol awdurdodi camau gorfodi yn ddiweddar mewn perthynas â'r achos, lle byddai'r adrodd i'r Pwyllgor Cynllunio wedi arwain at oedi niweidiol ac adroddwyd am fanylion yr achos i'r Pwyllgor er gwybodaeth.

Roedd yr achos yn ymwneud â chyflwyno Hysbysiad Stop Dros Dro (HSDD) o dan adran 171E Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) a Hysbysiad Gorfodi (HG) o dan adran 172 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) mewn perthynas â gosod aráe paneli solar ar do adeilad Holiday Inn Express yn y Rhws. Ystyriwyd bod cyflwyno HSDD yn briodol gan fod potensial i’r paneli (trwy befrio a thywynnu) effeithio'n andwyol ar ddiogelwch gweithrediadau hedfan ym Maes Awyr Caerdydd, oedd yn cael ei ystyried yn annerbyniol.

PENDERFYNWYD – Y DYLID nodi camau gorfodi a awdurdodir gan y Pennaeth Datblygu Cynaliadwy a Rheolwr Gweithredol (Cynllunio a Rheoli Adeiladu) mewn perthynas â'r achos, o dan bwerau dirprwyedig.

488 CEISIAD CYNLLUNIO (PDC) –

PENDERFYNWYD – Yn unol â'r pwerau a ddirprwywyd i'r Pwyllgor, y penderfynir ar y ceisiad a ganlyn fel y nodir a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol eraill.

**2020/01218/HYB** Derbyniwyd ar 29 Hydref 2020
(P.51)
**YMGEISYDD**: Mr Phil Worthing
**ASIANT:** Mrs Emma Fortune, Tŷ Brunel, 2 Fitzalan Road, Caerdydd CF24 0EB.

**Cei Lecwydd, Heol Lecwydd, Lecwydd.**

Cais cynllunio hybrid ar gyfer datblygiad preswyl ar gyfer hyd at 228 o anheddau (a gyflwynwyd ar ffurf AMLINELLOL), gwaith gwella/ail-alinio priffyrdd a phont cysylltiedig (a gyflwynwyd yn LLAWN). Mae'r datblygiad yn cynnwys dymchwel pob adeilad ar y safle yn ogystal â dymchwel pont bresennol Heol Lecwydd (B4267).

GOHIRIWYD Ar gyfer ymweliad safle gan y Pwyllgor Cynllunio.

**<u>2021/01046/RG3</u>** Derbyniwyd ar 14 Awst 2021
(P.135)
**YMGEISYDD**: Cyngor Bro Morgannwg, Yr Alpau, Quarry Road, Caerdydd CF5 6AA
**ASIANT:** Mr John Griffiths, Tecta Associates Limited, Blacksmiths Shop, The Forge, Cantref, Aberhonddu LD3 8LR

**10 Dyffryn Close, Sain Nicolas**

Cais ôl-weithredol ar gyfer adfer corn simnai a gosod teils to newydd.

Tynnodd y Cynghorydd Perkes yn ôl o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem.

Ystyriwyd y dylid RHOI caniatâd cynllunio yn unol â’r amodau sydd wedi’u cynnwys yn yr adroddiad.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**<u>2021/01046/RG3</u>** Derbyniwyd ar 14 Gorffennaf 2021
(P.148)
**YMGEISYDD**: Cyngor Bro Morgannwg, Yr Alpau, Quarry Road, Caerdydd CF5 6AA
**ASIANT:** Mr John Griffiths, Tecta Associates Limited, Blacksmiths Shop, The Forge, Cantref, Aberhonddu LD3 8LR

**12 Dyffryn Close, Sain Nicolas**

Cais ôl-weithredol ar gyfer adfer corn simnai a gosod teils to newydd.

Tynnodd y Cynghorydd Perkes yn ôl o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem.

Ystyriwyd y dylid RHOI caniatâd cynllunio yn unol â’r amodau sydd wedi’u cynnwys yn yr adroddiad.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**<u>2023/00740/FUL</u>** Derbyniwyd ar 12 Gorffennaf 2023
(P.161)
**YMGEISYDD**: Mr a Mrs Richard ac Anne Prosser, 16 Heol y Frenhines, Dinas Powys CF64 4UH.
**ASIANT:** Mr a Mrs Richard ac Anne Prosser, 16 Heol y Frenhines, Dinas Powys CF64 4UH.

**16 Heol y Frenhines, Dinas Powys.**

Cadw ffens 6 troedfedd i ochr/cefn yr eiddo i amgáu'r ardd. Mae'r ffens wedi'i gosod yn ôl o'r llinell derfyn tua 20cm.

PENDERFYNWYD – Y DYLID rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer cadw'r ffens, yn groes i argymhelliad swyddogion, yn unol â’r amodau a awgrymir.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod